



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Law yn Llaw at lechyd: Cynllun Cyflawni ar gyfer Gofal lechyd Llygaid (2013 - 2018)

Adroddiad 2014



Gwasanaethau Gofal Llygaid Cymru
Wales Eye Care Services

www.eyecare.wales.nhs.uk

1. Cyflwyniad

Mae cyhoeddi adroddiad cyntaf Cymru ar ofal llygaid yn rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddarparu Gwasanaeth Iechyd mwy atebol a gweladwy i bobl Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at y cynnydd yr ydym wedi ei wneud yn ein gwasanaethau gofal llygaid ers lansio Law yn Llaw at Iechyd: Cynllun Cyflawni Cymru ar gyfer Gofal Iechyd Llygaid, ac yn nodi meysydd i'w gwella yn y dyfodol.

Sefydlwyd Grŵp Llywio Gofal Iechyd Llygaid Cymru i gyflawni'r Cynllun; a sefydlwyd saith grŵp ymgynghorol i sicrhau bod datblygiadau allweddol a negeseuon Llywodraeth Cymru yn cael eu lledaenu yn fewnol ac yn allanol. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi peth o'r cynnydd da sydd wedi cael ei wneud o ran cyflawni'r argymhellion a nodwyd yn y Cynllun Cyflawni ac yr adroddwyd amdanynt yng Nghynhadledd Flynyddol Gofal Iechyd Llygaid Cymru, a gynhaliwyd ym mis Medi 2014.

Roedd cryn orgyffwrdd rhwng y blaenoriaethau a'r nodau yn Strategaeth Golwg Cymru. Felly, mae Cynllun Gweithredu Strategaeth Golwg newydd Cymru (2014-19) yn adlewyrchu hynny, ac mae'r camau perthnasol o'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Gofal Iechyd Llygaid wedi eu cynnwys ochr yn ochr â'r rheiny a ddatblygwyd gan aelodau Strategaeth Golwg Cymru.



2. Sefydlu dulliau i fesur canlyniadau

Gan mai hwn yw Cynllun Cyflawni cyntaf Cymru ar gyfer Gofal Iechyd Llygaid, a'r un cyntaf yn y byd yn ein tyb ni, gwnaed llawer o waith i ddatblygu dulliau mesur a sicrhau ansawdd canlyniadau.

Adrodd ystadegau ar ofal llygaid

Bu grŵp gorchwyl a gorffen ar ystadegau yn gweithio i goladu gwybodaeth am ystadegau iechyd llygaid yng Nghymru mewn un bwletin a gyhoeddir ym mis Mehefin bob blwyddyn. Yn 2013/14, datblygodd hwn i gynnwys mwy o wybodaeth am wasanaethau llygaid mewn ysbytai ac arolygon o'r cyhoedd. Hwn oedd y bwletin ystadegau cyntaf i gael ei gynhyrchu ar gyfer gofal llygaid yn unrhyw un o wledydd y DU. Fel rhan o'r gwaith hwn mae gwybodaeth ychwanegol hefyd yn cael ei chasglu/rhannu.

Gellir gweld y bwletin ystadegau yn:

<http://gov.wales/statistics-and-research/eye-care/?skip=1&lang=cy>

Adroddir am ddulliau allweddol i fesur a sicrhau ansawdd canlyniadau isod. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo i wella ansawdd yr wybodaeth a gesglir a sicrhau bod y dulliau mesur yn rhai cadarn.



3. Mynychder yr achosion o golli golwg yng Nghymru

Mae colli golwg yn cael effaith amlwg ar hyd ac ar ansawdd bywydau llawer o bobl yng Nghymru. Mae'n gysylltiedig â chwympiadau, llai o allu i gyflawni gweithgareddau pob dydd, yr angen am ofal preswyl, ac mae'n un o'r ffactorau risg cryfaf dros ddirywiad yn statws gweithredol pobl sy'n byw yn y gymuned. Mae tystiolaeth ddiweddar hefyd wedi awgrymu bod pobl hŷn sydd â nam ar eu golwg yn fwy tebygol o gael cyflyrau iechyd corfforol a meddyliol eraill.

Mae mynychder yr achosion o golli golwg yn rhoi syniad inni o sut mae ein gwasanaethau iechyd yn bodloni anghenion, drwy olrhain faint o bobl sydd wedi colli eu golwg. Drwy ragamcanu canlyniadau data epidemiolegol yn y llenyddiaeth feddygol, gellir amcangyfrif bod modd atal neu osgoi hyd at hanner nifer yr achosion o ddiffyg golwg y gellir ei ardystio yng Nghymru, neu leihau pa mor ddifrifol ydyw.

Yng Nghymru, rydym yn defnyddio nifer y bobl yr ardystiwyd eu bod wedi colli golwg bob blwyddyn i fesur mynychder yr achosion o golli golwg. Mae ardystio achosion o golli golwg yn rhoi syniad inni o ble rydyn ni arni o ran atal colli golwg.

Dull mesur canlyniadau: Nifer y bobl newydd yr ardystiwyd bod ganddynt nam ar eu golwg

Yn ogystal â nifer yr achosion newydd a ardystiwyd, a'r gyfradd fesul 100,000 o drigolion Cymru, rydym yn monitro mynychder yr achosion o golli golwg yn y prif grwpiau lle y gellir eu hatal, sef:

- Pobl â dirywiad macwlaidd sy'n gysylltiedig â henaint (AMD) 65 oed neu hŷn.
- Pobl â glawcoma 40 oed neu hŷn.
- Clefyd diabetig y llygaid mewn pobl 12 oed neu hŷn.

Yng Nghymru, dros y pum mlynedd ddiwethaf mae nifer yr achosion newydd o golli golwg a ardystiwyd wedi gostwng (Ffigur 1).


Adroddodd cyhoeddiad diweddar yn y BMJ Open (Liew et al, Chwefror 2014)¹ nad retinopatheg diabetig, am y tro cyntaf mewn pum degawd o leiaf, yw prif achos dallineb y gellir ei ardystio ymhlith oedolion oed gwaith yng Nghymru a Lloegr (fel y mesurwyd yn 2009-2010) bellach.

¹ BMJ Open: A comparison of the causes of blindness certifications in England and Wales in working age adults (16–64 years), 1999–2000 with 2009–2010, Gerald Liew, Michel Michaelides, Catey Bunce

Er nad bwriad yr ymchwil oedd dangos achos ac effaith, mae'r awduron yn crybwyll mai cyflwyno rhaglenni sgrinio cenedlaethol ar gyfer retinopat heg diabetig yn ystod cyfnod yr astudiaeth oedd yn debyg o fod wedi cyfrannu at y gostyngiad yn y niferoedd.

Caiff tystysgrif nam ar y golwg ei chwblhau gan offthalmolegydd, a fydd yn ardystio bod y claf wedi cyrraedd lefel benodol o ddiffyg golwg. Anfonir y data epidemiolegol sydd yn yr ardystiad i Ysbyty Llygaid Moorfields i gael eu hymchwilio a'u dadansoddi. Fel rhan o'r broses ardystio mae'r claf yn cael ei atgyfeirio i Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol i gael ei gofrestru, ac nid yw'r broses yn cael ei chwblhau heb gydsyniad gwirfoddol y claf. Mae hynny'n golygu, os na fydd y claf wedi cydsynio i gofrestru gyda'r Awdurdod Lleol, nid yw'r data epidemiolegol yn cael eu hanfon i Ysbyty Llygaid Moorfields. Mae'r holl randdeiliaid wedi cytuno y gellid gwella'r dull mesur hwn drwy wneud casglu data dienw i'w hardystio yn orfodol i'r gwasanaethau llygaid, a gadael derbyn y cynnig i gael eu rhoi ar y gofrestr, a'u cyfeirio at wasanaethau cymdeithasol ar gyfer rhaglen adsefydlu, fel ail gam penodol a gwirfoddol (a chyfrinachol). Byddai hynny'n gwella'r dull mesur. Ond, yn y lle cyntaf, mae'n debygol y bydd cynnydd yn nifer y bobl sy'n gymwys oherwydd bydd y dull yn cynnwys y rheini a wrthododd o'r blaen i'w manylion gael eu cofnodi neu gael eu cyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol.

Ffigur 1: Yr achosion newydd o golli golwg a ardystiwyd yng Nghymru
Ffynhonnell: Ysbyty Llygaid Moorfields



4. Darlun esblygol o ofal llygaid yng Nghymru



Gwasanaethau Gofal Llygaid Cymru
Wales Eye Care Services



Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru
Low Vision Service Wales



Gwasanaethau Llygaid Ysbytai Cymru
Hospital Eye Services Wales



Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru
Eye Health Examination Wales



Gwasanaeth Sgrinio Retinopatheg Diabetig Cymru
Diabetic Retinopathy Screening Service Wales



Gofal Llygaid Plant Cymru
Children's Eye Care Wales

4.1 Atal colli golwg yng Nghymru

Mae ein poblogaeth yn heneiddio ac er bod iechyd cyffredinol yn gwella, mae llawer o'r achosion dros golli golwg yn dod yn fwy cyffredin gan eu bod yn tueddu i effeithio ar bobl hŷn. Mae'n ffaith anffodus fod anghydraddoldebau iechyd mawr rhwng grwpiau economaidd-gymdeithasol ac ardaloedd daearyddol yn parhau ac mae Llywodraeth Cymru'n benderfynol y bydd Cynllun Cymru ar gyfer Gofal Iechyd Llygaid yn cael effaith o ran cau'r bwlch.

Mae'n anodd mynd i'r afael â llawer o achosion iechyd gwael ac maent yn gysylltiedig â phenderfynyddion cymdeithasol ehangach iechyd ac anghydraddoldebau. Mae ysmegu a deiet anghytwys yn ffactorau risg mawr o ran colli golwg.



Dengys Tabl 1 rai o ganlyniadau Arolwg lechyd Cymru 2013 yn y maes hwn. O fewn pob grŵp oedran, roedd canran uwch o atebwyr, a oedd yn ysmygwyr ar y pryd, yn adrodd am anhawster gyda'u golwg nag o anysmygwyr, a oedd yn cynnwys cyn-ysmygwyr a phobl nad oeddent wedi ysmegu erioed. Roedd cyfran uwch o anysmygwyr wedi defnyddio optegydd yn y 12 mis blaenorol, eto ar gyfer pob grŵp oedran. Roedd y canlyniadau ar gyfer cyn-ysmygwyr a'r rheini nad oeddent wedi ysmegu erioed yn debyg. Nodwch nad yw'r gwahaniaethau hyn o bosibl yn arwyddocaol yn ystadegol.

Tabl 1: Anhawster gyda'r golwg – atebwyr i Arolwg lechyd Cymru 2013, a ddywedodd nad oedd eu golwg yn ddigon da i weld wyneb rhywun ar draws ystafell, neu eu bod yn cael trafferth i wneud hynny (gyda sbectol neu lensys cyswllt os oeddent yn arfer gwisgo rhai) Nodwch fod y canlyniadau hyn yn seiliedig ar sampl yr arolwg, ac felly'n agored i gyfeiliornadau samplu a ffactorau cynllunio²

	Ysmygwyr ar y pryd	Cyn- ysmygwyr	Erioed wedi ysmygu	Anysmygwyr (yn cynnwys cyn- ysmygwyr a'r rheini sydd erioed wedi ysmygu)
% ag anhawster gyda'r golwg				
oedran:				
16 - 44	5	4	4	4
45 - 64	8	5	4	4
65 +	10	7	7	7
% a ddefnyddiodd optegydd yn ystod y 12 mis blaenorol				
oedran:				
16 - 44	29	39	39	39
45 - 64	46	57	57	57
65 +	56	69	70	70

Ffynhonnell: Arolwg lechyd Cymru

² Am ddiffiniadau llawn a gwybodaeth bellach, gweler: <http://gov.wales/statistics-and-research/ad-hoc-statistical-requests/?skip=1&lang=cy>

Codi ymwybyddiaeth o'r cysylltiad rhwng ysmegu a cholli golwg a chyfeirio pobl at wasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi gweithio gydag Optometreg Cymru a chydag optegwyr i ddatblygu cynllun peilot lle y bydd optometryddion yn cyfeirio pobl at raglenni rhoi'r gorau i ysmegu ledled Cymru yn 2015.



Dull mesur canlyniadau: Nifer y bobl sy'n cael eu cyfeirio at wasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu gan optometryddion

Nid yw'r cyhoedd yn gwybod llawer am y ffaith, yn achos nifer o gyflyrau'r llygaid, nad yw hi fel arfer yn bosibl gwella gollwg sydd wedi'i golli. Nid yw pobl yn gwybod ychwaith am yr hyn y gallant ei wneud i atal colli eu golwg.

Cynllun cyfathrebu

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu cynllun cyfathrebu ar gyfer grwpiau sydd mewn perygl mawr. Arweinir hwn gan Sight Cymru, Canolfan Addysg Optometrig Ôl-raddedig Cymru, RNIB Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru, ac Optometreg Cymru.

Dull mesur canlyniadau: Y gyfran o oedolion sy'n ymwybodol o bwysigrwydd iechyd llygaid

Wythnos Iechyd Llygaid

Mae RNIB Cymru a sefydliadau sy'n bartneriaid wedi cael blwyddyn lwyddiannus arall o ddarparu amrywiaeth o weithgareddau i hyrwyddo pwysigrwydd iechyd llygaid a'r angen i bawb gael profion golwg rheolaidd.

4.2 Codi ymwybyddiaeth o iechyd llygaid a'r angen i gael profion golwg rheolaidd

Yn 2013-14, cynhaliwyd 758,572 o brofion golwg Gwasanaeth Offthalmig Cyffredinol y GIG a 96,487 o Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru.

Mae llawer o bobl yng Nghymru nad ydynt yn cael profion golwg rheolaidd. Mae profion golwg yn bwysig i sicrhau bod pobl yn gallu gweld mor glir â phosibl – gan ddefnyddio sbectol neu lensys cyffwrdd pan fo angen. Maent hefyd yn rhoi cyfle i brofi am glefyd llygaid, gan sicrhau bod iechyd llygaid gwael yn cael ei atal, neu'n cael ei ganfod yn gynnar, er mwyn lleihau'r effaith. Bydd codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd iechyd llygaid a'r angen i ddefnyddio gwasanaethau gofal llygaid yn hanfodol i atal colli golwg a gwella iechyd llygaid.


Y rhai hynny sydd fwyaf mewn perygl o golli golwg yw'r rhai sydd dros 60 oed, sydd â deiet gwael, sy'n ysmegu, sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol, a'r rheini o grŵp ethnig Du Affro-Caribiaidd ac Asiaidd. Mae profion golwg Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru yn rhad ac am ddim yng Nghymru i lawer o bobl mewn grwpiau risg uchel a'r rheini y byddai colli eu golwg yn arbennig o anodd iddynt, er enghraifft, y rheini sydd â nam ar eu clyw. Mae sicrhau eu bod yn cael profion golwg rheolaidd yn bwysig wrth geisio lleihau'r nifer sy'n colli eu golwg yng Nghymru.

Ar hyn o bryd gwyddom fod anghydraddoldeb yn nifer y rhai sy'n manteisio ar brofion golwg (Ffigur 2) a'r defnydd a wneir o Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru yng Nghymru (Ffigur 3).

Tynnu sylw at yr angen am brofion golwg rheolaidd


Er mwyn cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar brofion golwg rheolaidd, anogir y rheini sydd dros 50 oed, ac sy'n defnyddio'r Archwiliad Iechyd ar-lein ar wefan Ychwanegu at Fywyd (addtoyourlife.wales.nhs.uk), i fynd am brofion golwg rheolaidd. Mae eu cymhwyster a'u risg yn ôl ethnigrwydd yn rhan o'r wybodaeth. Mae gwefan ac ap Dewis Doeth (www.choosewellwales.org.uk) hefyd yn galluogi aelodau o'r cyhoedd i ddod o hyd i'w hoptometrydd agosaf.

Ffigur 2: Nifer profion golwg y GIG ar gyfer pobl 60 oed a throsodd fesul 1,000 o'r boblogaeth berthnasol yn ôl Bwrdd Iechyd, 2013 - 2014³



3 Ystadegau gofal llygaid Cymru, 2013 – 14, SDR 98/2014, dyddiedig 17 Mehefin 2014

Ffigur 3: Nifer y profion a wneir gan Archwiliadau lechyd Llygaid Cymru (EHEW) fesul 10,000 o'r boblogaeth (pob oed) yn ôl Bwrdd lechyd, 2013-14⁴



⁴ Ystadegau gofal llygaid Cymru, 2013 – 14, SDR 98/2014, dyddiedig 17 Mehefin 2014

Archwiliad o'r defnydd o wasanaethau offthalmig cymunedol fesul ardal o amddifadedd


Mae lechyd Cyhoeddus Cymru wedi archwilio'r defnydd o Archwiliadau lechyd Llygaid Cymru a'r Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol fesul ardal o amddifadedd.

Mae cyfran fwy o bractisau offthalmig cymunedol yn y cwintelau mwyaf amddifad (tri, pedwar a phump) a llai o bractisau offthalmig cymunedol yn y cwintelau lleiaf amddifad (un a dau) nag y disgwyliid pe caent eu dosbarthu ar sail nifer y bobl (Ffigur 4).


Ceir mwy o brofion golwg gan y Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol a gan Archwiliadau lechyd Llygaid Cymru yng nghwintelau mwyaf amddifad Cymru (tri, pedwar a phump) a llai yn y cwintelau lleiaf amddifad (un a dau) (Ffigur 5).

Dengys hyn fod mwy na hanner yr holl bractisau offthalmig yn yr ardaloedd mwyaf amddifad a'u bod yn darparu swm cyfartal bron o brofion golwg y Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol ac Archwiliadau lechyd Llygaid Cymru ym mhob ardal.

Ffigur 4: Cymhariaeth rhwng y gyfran o bractisau offthalmig cymunedol a'r gyfran o boblogaeth Cymru sy'n byw ym mhob cwintel amddifad.
Ffynhonnell: lechyd Cyhoeddus Cymru



Ffigur 5: Cymhariaeth rhwng y gyfran o brofion y Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol a phroffion Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru (EHEW) ym mhob cwintel amddifad. Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru



Mae sicrhau bod pob cysylltiad yn cyfrif yn bwysig, ac mae gan weithwyr proffesiynol eraill rôl bwysig i sicrhau bod pobl risg uchel yn cael profion golwg rheolaidd.

Mae fferyllfeydd cymunedol mewn sefyllfa dda i hybu pwysigrwydd archwiliadau golwg rheolaidd ac atgyfeirio ar gyfer archwiliadau aciwt o dan Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru. Mae pobl yn ymweld â fferyllfeydd fel mater o arfer i ofyn am gyngor ynglŷn â phroblemau llygaid aciwt ac i gael meddyginiaethau ar gyfer cyflyrau llygaid cronig megis glawcoma. Yn 2013, cynhaliodd Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn partneriaeth â'r RNIB, Fferylliaeth Gymunedol Cymru ac Optometreg Cymru ymgyrch 'gofal am eich llygaid', a thrwy'r ymgyrch hwnnw roedd y fferyllfeydd yn hyrwyddo'r canlynol:

- Bod rhoi'r gorau i ysmegu, colli pwysau a bwyta'n iach yn lleihau'r risg o golli golwg y gellir ei osgoi.
- Pwysigrwydd cael archwiliad llygaid yn rheolaidd, fel arfer bob dwy flynedd.
- Sut y gall cadw golwg ar y ffordd y mae pobl yn defnyddio'u meddyginiaethau helpu pobl â chyflyrau llygaid i ddefnyddio'u meddyginiaethau yn fwy effeithiol.
- Atgyfeirio problemau llygaid sydyn at optometrydd achrededig Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru.

Cynyddu ymwybyddiaeth o iechyd llygaid ymhlith gweithwyr gofal sylfaenol a gofal cymunedol proffesiynol

Mae Canolfan Addysg Optometrig Ôl-raddedig Cymru, Prifysgol Caerdydd, wedi hyfforddi dros 500 o feddygon teulu a 700 o fferyllwyr i gyfeirio cleifion â phroblemau llygaid at ymarferwyr optometrig gofal sylfaenol am ddiagnosis arbenigol, triniaeth a/neu atgyfeirio.

Dull mesur canlyniadau: Nifer y bobl sy'n cael profion golwg rheolaidd

Gan ddefnyddio data taliadau'r Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol byddwn yn monitro:

- Nifer profion golwg y GIG fesul 1000 o'r boblogaeth yng Nghymru
- Nifer profion golwg y GIG ar gyfer pobl dros 60 oed fesul 1000 o'r boblogaeth dros 60 oed
- Nifer profion golwg y GIG ar gyfer oedolion sy'n derbyn cymhorthdal incwm fesul 1000 o'r boblogaeth rhwng 16 a 59 oed

Gan ddefnyddio data Arolwg Cenedlaethol byddwn yn monitro ymatebion i'r cwestiynau canlynol:

- Pa mor aml ydych chi'n cael prawf ar eich llygaid?
- Pam nad ydych chi'n cael eich llygaid wedi'u profi yn amlach?

Gan ddefnyddio data'r Arolwg Iechyd byddwn yn monitro nifer yr ysmygwyr a phobl â deiet gwael sy'n cael profion golwg.

Mae gwasanaeth Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru yn ffurfio rhan o Wasanaeth cyffredinol Gofal Llygaid Cymru. Fel rhan o wasanaeth Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru, mae cleifion sydd â phroblem aciwt sy'n ymwneud â'r llygaid ac sy'n teimlo bod arnynt angen sylw ar frys, yn gymwys i gael archwiliad am ddim. Ar hyn o bryd mae llawer o'r wybodaeth yn canolbwyntio ar hysbysu gweithwyr proffesiynol gofal iechyd eraill, megis meddygon teulu, fferyllwyr, nyrsys ac ati, am Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru.

Gall y cyhoedd gael hyd i wybodaeth am wasanaeth gofal llygaid aciwt Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru drwy'r rhyngwyd ar wefan www.eyecare.wales.nhs.uk/hafan. Mae'r cyhoedd hefyd yn cael eu cyfeirio at bractis achrededig Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru ar wefannau Dewis Doeth a Galw Iechyd Cymru.

Dull mesur canlyniadau: Nifer y bobl â phroblem llygaid aciwt sy'n gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau gofal llygaid

Gan ddefnyddio data'r Arolwg Cenedlaethol byddwn yn monitro'r ymatebion i'r cwestiwn canlynol:

- Pe baech yn cael poen neu gochni yn eich llygad, â phwy ydych chi'n meddwl y byddech chi'n cysylltu am help yn y lle cyntaf?

4.3 Codi ymwybyddiaeth o iechyd llygaid a'r angen am sgrinio retinopatheg mewn pobl â diabetes

Yng Nghymru, mae gennym Wasanaeth Sgrinio Retinopatheg Diabetig Cymru sy'n anelu at ganfod achosion o retinopatheg diabetig a chyfeirio'r rhai ag arwyddion o retinopatheg, a all fygwth eu golwg, at wasanaeth llygaid mewn ysbyty. Bydd y rheini â graddfeydd llai o retinopatheg diabetig yn cael eu cadw o fewn Gwasanaeth Sgrinio Retinopatheg Diabetig Cymru, sy'n seiliedig ar ofal sylfaenol.

Ym mis Medi 2014, darparwyd £561,000 o gyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Gwasanaeth Sgrinio Retinopatheg Diabetig Cymru i brynu camerâu retinol digidol newydd.

Mae'n hanfodol bod pobl sydd â diabetes yn ymwybodol o'r rhaglen sgrinio yng Nghymru a'u bod yn mynd i gael eu sgrinio'n rheolaidd. Ers cyflwyno'r gwasanaethau 10 mlynedd yn ôl, mae nifer y bobl sydd â retinopatheg diabetig wedi gostwng. Fodd bynnag, mae gwaith i'w wneud o hyd i gynyddu'r nifer sy'n defnyddio'r gwasanaeth; nifer y bobl gymwys ac egnïol a gafodd eu gwahodd am sgrinio retinopatheg diabetig yn 2013/14 oedd 145,277; nifer y canlyniadau a adroddwyd oedd 115,344. Y nifer sy'n manteisio ar hyn o bryd yw 79%, sy'n cyd-fynd â'r nifer yn y tair rhaglen sgrinio retinopatheg arall yn y DU. Rydym am ganolbwyntio ar wella'r niferoedd sy'n cael eu sgrinio yng Nghymru. Un enghraifft yw bod Gwasanaeth Sgrinio Retinopatheg Diabetig Cymru yn cyflwyno'n raddol y defnydd o anfon neges destun i atgoffa pobl am apwyntiad; ceir tystiolaeth dda fod hynny'n cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb.

Dull mesur canlyniadau: Y gyfran o bobl â diabetes sy'n cael sgrinio retinopatheg rheolaidd

Caiff hyn ei fonitro gan ddefnyddio nifer y bobl sy'n defnyddio Gwasanaeth Sgrinio Retinopatheg Diabetig Cymru fesul 10,000 o drigolion Cymru. Byddwn yn adrodd am y dull mesur hwn yn yr Adroddiad Blyneddol ar gyfer y flwyddyn nesaf.

4.4 Gwasanaethau Gofal Llygaid yng Nghymru

Mae'n hanfodol bod gwasanaethau gofal iechyd llygaid yn ateb anghenion cleifion ac yn cael eu darparu i'r safonau uchaf. I sicrhau hyn mae angen ymgysylltiad clinigol cryf, gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn cymryd yr awenau o ran gwella ansawdd y gwasanaethau a'r driniaeth y maent yn ei darparu.

Mae gan y cyhoedd hefyd rôl allweddol i'w chwarae wrth godi ansawdd y gwasanaethau a ddarperir. Er mwyn sicrhau ansawdd yn yr holl wasanaethau, rydym wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen sy'n datblygu Dulliau Mesur Canlyniadau a Adroddir gan Gleifion a Dulliau Mesur Profiad a Adroddir gan Gleifion ar gyfer Cymru. Daw y gwaith hwn i ben yn 2015, gan sicrhau bod adrodd yn ffurfiol am ganlyniadau'r dulliau mesur hyn yn digwydd ar gyfer pob agwedd ar ofal llygaid.

Defnyddir Dulliau Mesur Canlyniadau a Adroddir gan Gleifion ar gyfer pedwar llwybr ac mae tri wedi cael eu cytuno

Mae Dulliau Mesur Canlyniadau a Adroddir gan Gleifion wedi cael eu cytuno ar gyfer Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru (holiadur saith eitem y Gallu i Weld Sefydliad Cenedlaethol y Llygad [NEI-VFQ 7]), y llwybr Cataract (holiadur naw eitem Catquest-9SF) a'r llwybr Glawcoma (holiadur 9 eitem Cyfyngiad Gweithgaredd Glawcoma GAL-9) a byddwn yn fuan yn cadarnhau'r Dulliau Mesur Canlyniadau a Adroddir gan Gleifion ar gyfer gwasanaethau Dirywiad Macwlaidd Gwlyb sy'n Gysylltiedig â Henaint.

Bydd yr holl lwybrau yn defnyddio Dulliau Mesur Profiad a Adroddir gan Gleifion a ddatblygwyd yn genedlaethol.

Bydd gan yr holl wasanaethau/llwybrau Ddulliau Mesur Profiad a Adroddir gan Gleifion, ac os yw'n berthnasol, Fesurau Canlyniadau a Adroddir gan Gleifion, ar waith erbyn 2015.

Dull mesur canlyniadau: Profiad a adroddir gan gleifion sy'n defnyddio gwasanaethau gofal llygaid (practisau optometreg, gwasanaethau llygaid mewn ysbytai a gwasanaethau cymdeithasol).

Dull mesur canlyniadau: Canlyniadau a adroddir gan gleifion ar gyfer cataract, triniaeth ar gyfer Dirywiad Macwlaidd Gwlyb sy'n Gysylltiedig â Henaint, gwasanaethau glawcoma a Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru.

Rhan hanfodol o Gynllun Gofal Iechyd Llygaid Cymru yw cysylltu pob rhan o'r Gwasanaethau Llygaid drwy dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Bydd hyn yn ein galluogi i wella integreiddio ac yn hwyluso'r gallu i ddefnyddio a rhannu gwybodaeth. Mae Cofnodion Cleifion Electronig yn rhan hanfodol o ddatblygu Canolfannau Diagnosteg a Thriniaeth Offthalmig a fydd yn galluogi gweithwyr proffesiynol, ar wahân i offthalmolegwyr, i weld cleifion. Gallant wneud hyn tra bydd y claf yn dilyn y llwybr gofal integredig dan arweiniad ymgynghorydd, gyda mewnbwn arbenigol uwch mewn clinigau rhithwir a wneir yn bosibl drwy'r Cofnod Electronig am Gleifion.

Mae'r gwaith o ddatblygu atgyfeiriadau electronig a chofnodion electronig am gleifion yn mynd rhagddo

Dyrannwyd £1 miliwn o gyllid i ofal llygaid drwy Gronfa Technolegau Iechyd a Theleiechyd i sefydlu systemau Technoleg Gwybodaeth ar draws gofal sylfaenol ac eilaidd. Bydd hynny'n helpu i wella gofal cleifion ymhellach a rhyddhau lle mewn ysbytai. Mae gwaith ar y gweill i gysylltu optometreg gofal sylfaenol, gweithredu proses e-atgyfeirio a lledaenu'r cofnod electronig ar draws Cymru.

Dull mesur canlyniadau: Y gyfran o atgyfeiriadau electronig gan optometryddion i wasanaeth llygaid mewn ysbyty

Roedd y Cynllun Cyflawni ar gyfer Gofal Llygaid yn amlinellu'r angen i sefydlu Grwpiau Gofal Llygaid ym mhob Bwrdd Iechyd i sicrhau bod y gwasanaethau'n cael eu cynllunio, eu monitro a'u hadolygu a bod yr holl randdeiliaid yn rhan o'r broses honno.

Sefydlwyd grwpiau gofal llygaid ym mhob Bwrdd Iechyd

Mae'r aelodaeth yn cynnwys clinigwyr ym maes gofal sylfaenol ac eilaidd, rheolwyr a'r trydydd sector. Mae pob Bwrdd Iechyd hefyd wedi datblygu cynlluniau gofal llygaid lleol sy'n amlinellu anghenion gofal llygaid eu poblogaeth leol a sut y maent yn bwriadu eu bodloni.

Mae'r enghreifftiau canlynol yn amlinellu sut y mae mentrau cyfredol a newydd wedi datblygu dros y flwyddyn ddiwethaf:

- **Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg**

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg wedi sefydlu Grŵp Gofal Llygaid i oruchwylio cyflawni Cynllun Cymru ar gyfer Gofal Iechyd Llygaid. O fewn y cynllun, nodwyd ffrydiau gwaith a dyrannwyd y rhain i is-grwpiau.

Yr is-grŵp Technoleg Gwybodaeth / Ystadegau yw'r mwyaf datblygedig o'r rhain ac mae'n gweithio gyda Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru i gyflawni'r cynllun peilot electronig ar gyfer y Canolfannau Diagnosteg a Thriniaeth Offthalmig.

Bu'r grŵp Gwasanaeth Llygaid Ysbytai / Ffocws ar Offthalmoleg, sy'n goruchwyllo'r llwybrau ar gyfer glawcoma, yn gweithio gyda chydweithwyr ym maes gofal sylfaenol a gyda Chanolfan Addysg Optometrig Ôl-raddedig Cymru i gyflwyno noson hyfforddi lwyddiannus ar ddiwedd mis Tachwedd a oedd yn anelu at wella ansawdd atgyfeiriadau glawcoma.

- **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi gweithredu Gwasanaeth Lleol Gwell ar gyfer Gorbwysedd Ocwlwr Glawcoma a chleifion dan amheuaeth, mewn cydweithrediad â chwech o Bractisau Optometreg ym maes gofal sylfaenol, er mwyn adolygu hynt cleifion â Glawcoma sydd wedi bod yn aros yn hir am apwyntiad dilynol. Yn dilyn yr asesiad, anfonir gwybodaeth y cleifion, yr asesiad a'r delweddau yn ôl i ofal eilaidd ar gyfer Adolygiad Rhithwir gan yr Ymgynghorydd. Mae'r bwrdd iechyd wedi anfon 1354 o gleifion yn y ddau grŵp cyntaf ac wedi anfon 353 pellach a fydd yn cael eu gweld rhwng Ionawr a Mawrth 2015.

- **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

Roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn rhan o Beilot Blaenoriaethu Cenedlaethol a gafodd ei gymeradwyo gan y Gweinidog Iechyd fel rhan o'i ymrwymiad i edrych ar ddulliau mesur mwy clinigol eu cymhelliad.

Roedd y cynllun peilot hwn yn canolbwyntio ar y canlynol:

Blaenoriaethu'r holl gleifion ar y rhestr aros ar gyfer cleifion newydd a'r rhestr aros ar gyfer cleifion dilynol yn ôl eu hanghenion clinigol ar ôl iddynt gael eu hapwyntiad, yn unol â'r risg a oedd yn gysylltiedig ag apwyntiadau a oedd yn cael eu gohirio.

- (a) Blaenoriaethu'r holl gleifion ar y rhestr aros ar gyfer cleifion newydd a'r rhestr aros ar gyfer cleifion dilynol yn ôl eu hanghenion clinigol cyn iddynt gael eu hapwyntiad, yn unol â'r risg sy'n gysylltiedig ag apwyntiadau sy'n cael eu gohirio.
- (b) Mae'r categoreiddio clinigol yn cael ei gofnodi ar bob cofnod yn y rhestr aros.
- (c) Cynhyrchu adroddiadau am restrau aros er mwyn canfod cleifion y mae'r dyddiad targed ar gyfer eu hapwyntiad wedi mynd heibio.
- (d) Mae cleifion yn cael eu bwcio yn ôl blaenoriaeth glinigol.
- (e) Mae bylchau yn y gallu a'r galw yn cael eu nodi a chymerir camau i leihau'r ôl-groniad ar gyfer cleifion newydd a chleifion dilynol.

- **Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**

Gwelodd 2014 agoriad llwyddiannus Canolfan Diagnosteg a Thriniaeth ar gyfer Dirywiad Macwlaidd sy'n Gysylltiedig â Henaint, gan ddefnyddio, am y tro cyntaf erioed yng Nghymru, rôl y Nyrs-Chwistrellwr. Gyda'r gwasanaeth bellach wedi ei sefydlu'n llawn, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn cynyddu gallu'r uned gyda'r defnydd priodol ac effeithiol o nyrsys hyfforddedig.

Mae'r Ganolfan Diagnosteg a Thriniaeth Offthalmig (ODTC) ar gyfer glawcoma yn parhau i weld cleifion newydd a darparu clinigau monitro ar gyfer cleifion â glawcoma sefydlog gan greu capasiti ychwanegol i leddfu'r galw am apwyntiadau dilynol a galluogi ymgynghorwyr i ganolbwyntio ar achosion mwy cymhleth.

- **Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf**

Gyda chefnogaeth yr RNIB datblygodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Ganolfan Diagnosteg a Thriniaeth Offthalmig dan arweiniad optometrydd yn ei Ysbyty Cymunedol yng Nghwm Rhondda. Mae llwyddiant y fenter hon wedi arwain at optometrydd ychwanegol a thechnegwyr offthalmig yn cael eu cyflogi gan y bwrdd iechyd i gynyddu nifer y sesiynau a ddarperir ac i ddatblygu cyfleuster tebyg yng Nghwm Cynon. Mae cleifion yr amheuir bod ganddynt glawcoma, neu sydd wedi derbyn diagnosis o glawcoma neu orbwysedd ocwlar, yn gallu dod i'r cyfleusterau hyn i gael eu hasesiadau, a fyddai o'r blaen wedi cael eu darparu mewn clinigau ymgynghorwyr yn yr Ysbytai Ardal Cyffredinol. Yn dilyn eu hasesiad penderfynir a oes angen iddynt gael eu gweld mewn clinig ymgynghorydd, parhau i gael eu monitro mewn Canolfan Diagnosteg a Thriniaeth Offthalmig, neu gael eu rhyddhau i ofal eu hoptometrydd cymunedol.

- **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**

Fel rhan o'r gwaith sy'n ymwneud â golwg plant, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi cyflwyno gwasanaeth plygiant cycloplegig. Nod y gwasanaeth hwn yw sicrhau plygiant cycloplegig a phresgripsiynau priodol ar gyfer plant sy'n cael eu cyfeirio at y Gwasanaeth Llygaid yn yr Ysbyty cyn eu hapwyntiad ysbyty cyntaf, a chaniatáu i blant sy'n gleifion Gwasanaeth Llygaid Ysbyty gael plygiant gan optometrydd yn y gymuned, ar gais Gwasanaeth Llygaid yr Ysbyty.

Drwy ddefnyddio optometryddion a achredwyd gan Wasanaeth Gofal Llygaid Cymru yn y gymuned, rydym yn sicrhau bod y claf yn derbyn yr archwiliadau priodol yn y lleoliad priodol. Datblygwyd y gwasanaeth hwn drwy'r grŵp Gofal Llygaid gyda chyfraniad gan dîm amlddisgyblaethol.

- **Bwrdd Iechyd Addysgu Powys**

Yn ystod 2014, sefydlodd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys Grŵp Gofal Llygaid Powys. Gydag aelodaeth sy'n cynnwys darparwyr gofal llygaid gofal sylfaenol ac eilaidd, mae'r

grŵp wedi datblygu Cynllun Cyflawni Powys ar gyfer Gofal Iechyd Llygaid; cynllun a luniwyd mewn ymateb uniongyrchol i Gynllun Cyflawni Cymru ar gyfer Gofal Iechyd Llygaid.

Gan ei fod yn sefydliad nad yw'n canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau aciwt, mae'r Bwrdd Iechyd yn awyddus i archwilio a datblygu'r rôl a chwaraeir yn arbennig gan ei ddarparwyr ym maes gofal sylfaenol.

Gan weithio gydag Optometreg Cymru, mae potensial optometryddion sy'n gweithio ym Mhowys yn cael ei ddatblygu i sicrhau eu bod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl i'r modd y mae anghenion gofal llygaid cleifion yn cael eu bodloni'n lleol, gan leihau'r pwysau ar ymgynghorwyr sy'n gweithio mewn lleoliad gofal eilaidd, ac, mewn llawer o achosion, y pellteroedd y mae'n rhaid i gleifion deithio i dderbyn eu gofal.

Mae'r swyddogaeth y mae meddygon teulu a fferyllwyr yn ei chyflawni, wrth adnabod a chefnogi'r rheiny a all o bosibl elwa oddi wrth archwiliad iechyd llygaid, hefyd yn cael ei harchwilio. Gan eu bod yn darparu gwasanaethau gofal sylfaenol ar y cyd mewn cymunedau lleol, y nod yw cryfhau'r berthynas rhwng meddygon teulu, fferyllwyr ac optometryddion i sicrhau bod cleifion yn gwneud y defnydd gorau posibl o wasanaethau sydd wedi eu hanelu at leihau effaith tymor hir cyflyrau, y gellid bod wedi'u canfod yn gynt drwy archwiliadau iechyd llygaid rheolaidd.

4.5 Gwasanaethau Gofal Llygaid Sylfaenol

Mae angen i bobl gael mynediad amserol at y gwasanaethau a'r cymorth y mae arnynt eu hangen a'n nod yw darparu mwy o wasanaethau a gofal yn nes i'w cartref. Mae'r cynllun newydd ar gyfer Gwasanaeth Gofal Sylfaenol i Gymru yn amlinellu sut y byddwn yn ail-gydbwyso ein buddsoddiad o blaid gofal sylfaenol er mwyn sicrhau datblygiad a chynnaladwydd ein gwasanaethau iechyd yn y dyfodol. Gellir gweld y cynllun sy'n dwyn y teitl: Ein cynllun ar gyfer gwasanaeth gofal sylfaenol i Gymru hyd at fis Mawrth 2018 yn <http://gov.wales/topics/health/nhswales/plans/care/?skip=1&lang=cy>

Er mwyn sicrhau gwasanaethau offthalmig cynaliadwy mae angen inni reoli mwy o gleifion yn y gymuned os yw'n glinigol briodol i wneud hynny. Mae Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru wedi galluogi optometryddion i gynnal archwiliadau estynedig ar y bobl hynny sydd mewn perygl mawr o ddatblygu clefyd llygaid, cynnal archwiliadau estynedig ar y cleifion hynny y byddai colli eu golwg yn arbennig o anodd iddynt, rheoli mân achosion aciwt ym maes gofal sylfaenol a rheoli mwy o bobl ym maes gofal sylfaenol yn hytrach na'u cyfeirio at ofal eilaidd.

Ar hyn o bryd yng Nghymru, mae tua 89% o bractisau optometreg cymunedol wedi eu hachredu i ddarparu gwasanaeth Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru (gwybodaeth reoli gan EHEW). Er mwyn darparu gwasanaeth cyson ledled Cymru rydym yn anelu at annog achredu 100% o optometryddion sy'n ymarfer yng Nghymru a 100% o bractisau.

Anogir yr holl optometryddion a phractisau yng Nghymru sydd heb eu hachredu i gael eu cofrestru yn rheolaidd drwy ddefnyddio llythyrau a galwadau ffôn ac ymweliadau personol.

Dull mesur canlyniadau: Y gyfran o optometryddion a phractisau sydd wedi'u hachredu i ddarparu gwasanaeth Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru

Byddwn yn cymharu'r holl optometryddion a phractisau hynny sydd wedi eu rhestru gyda Phartneriaeth Cydwasanaethau i ddarparu Gwasanaeth Archwilio Iechyd Llygaid Cymru gyda'r optometryddion a'r practisau optometreg hynny sy'n hawlio tâl am brofion golwg y Gwasanaeth Offthalmig Cyffredinol.

Atgyfeiriadau gan optometryddion cymunedol at wasanaeth llygaid mewn ysbytai.

Mae gwasanaeth Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru wedi arwain at wella'r wybodaeth sy'n ymwneud ag atgyfeiriadau ar gyfer clefydau penodol, sydd wedi eu cynnwys yn yr atgyfeiriadau at Wasanaeth Llygaid yr Ysbytai. Cynhaliwyd archwiliad eleni i werthuso atgyfeiriadau at Wasanaethau Llygaid Ysbytai a chymharwyd y canlyniadau gydag archwiliad blaenorol dair blynedd yn ôl.

Cynyddodd cyfran yr atgyfeiriadau at Wasanaethau Llygaid Ysbytai gydag arwyddion digonol o 65.3% i 94.2% ($p < 0.001$). Dengys dadansoddiad yn ôl clefydau gynnydd mewn atgyfeiriadau a oedd yn sôn am asesu'r disg optig yn achos atgyfeiriadau ar gyfer glawcoma (o 72.7% i 100%, $p = 0.015$) ac am ansawdd bywyd yn achos atgyfeiriadau ar gyfer cataract (o 33.3% i 60.4%, $p = 0.047$).

Mae nifer y cleifion sy'n cael eu rheoli gan bractisau optometreg cymunedol Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru hefyd yn cynyddu, ac wedi cyrraedd 85% erbyn hyn. Mae hyn yn golygu bod mwy o gleifion yn cael eu rheoli yn y gymuned gyda llai yn cael eu cyfeirio at Wasanaeth Llygaid yr Ysbytai.

Dull mesur canlyniadau: Nifer yr atgyfeiriadau o faes optometreg i Wasanaeth Llygaid yr Ysbytai

Dull mesur canlyniadau: Nifer yr atgyfeiriadau gan feddygon teulu i Wasanaeth Llygaid yr Ysbytai

Bwriedir cyhoeddi erthygl ystadegol yn gynnar yn 2015 a fydd yn edrych ar ansawdd y data a chyflawnder data atgyfeiriadau o bob ffynhonnell atgyfeirio, nid yn unig gan feddygon teulu. Bydd hyn, ynghyd â'r ffaith fod atgyfeiriadau gan optometryddion yn benodol bellach yn cael eu codio ac yn ymddangos yn y set ddata genedlaethol, o gymorth i ddeall patrymau atgyfeirio ar gyfer triniaeth offthalmoleg.

Mae gwasanaeth Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru yn cael ei adolygu'n flynyddol

Lansiwyd gwasanaeth Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru estynedig ym mis Ebrill 2013. Roedd hyn yn galluogi optometryddion achrededig i gynnal profion ychwanegol ym maes gofal sylfaenol i wella ansawdd yr atgyfeiriad neu eu galluogi i reoli ym maes gofal sylfaenol. Ym mis Tachwedd 2014, cynhaliwyd archwiliad o atgyfeiriadau. Dangosodd hyn y gallai optometryddion reoli 85% o achosion eu hunain. Mae gwelliannau i wasanaethau, gan gynnwys canllawiau atgyfeirio newydd wedi cael eu gweithredu.

Efallai bod potensial i ddatblygiadau pellach ym maes gofal llygaid sylfaenol. Felly rydym yn gweithio gyda'r byrddau iechyd, optometryddion ac offthalmolegwyr i nodi a oes modd darparu mwy o wasanaethau'n ddiogel ym maes gofal sylfaenol ac yn y gymuned, os yw'n glinigol briodol.

Buddsoddi mewn gofal llygaid sylfaenol

Ym mis Medi, dyrannwyd £600,000 o gronfa Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu gofal sylfaenol i ofal llygaid, er mwyn galluogi optometryddion i reoli cleifion ym maes gofal sylfaenol pan fo'n ddiogel i wneud hynny. Gwahoddwyd y byrddau iechyd i gyflwyno cynigion a fyddai'n arddangos eu cynllun i gyflawni hyn. Dyrannwyd cyllid i dalu costau dros 5000 o apwyntiadau Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru ledled Cymru. Dyrannwyd cyllid hefyd i rai byrddau iechyd ar gyfer datblygu Canolfannau Diagnosteg a Thriniaeth Offthalmig ym maes gofal sylfaenol, offer arbenigol, ac amser cyngorwyr optometrig.

4.6 Gwasanaethau Llygaid mewn Ysbytai

Mae offthalmoleg yn faes arbenigol syn trin nifer fawr o bobl, ac sy'n cyfrif am fwy na 10% o holl ymweliadau cleifion allanol a thriniaethau ysbytai yng Nghymru. Llawdriniaeth cataract yw'r driniaeth lawfeddygol fwyaf cyffredin. Ar hyn o bryd mae mwy na 300,000 o gleifion yn dod i glinigau allanol bob blwyddyn.

Ar hyn o bryd, nid oes digon o gapasiti i ateb y galw am Wasanaeth Llygaid yr Ysbytai. Gyda'r niferoedd cynyddol o bobl sydd angen gwasanaethau Offthalmoleg, mae'n hanfodol gwella ansawdd y data a gesglir yn rheolaidd er mwyn ei gwneud yn bosibl cynllunio a dyrannu adnoddau ar sail tystiolaeth.

Dull mesur canlyniadau: Y capasiti a'r galw yn y gwasanaeth llygaid mewn ysbytai

Bydd y byrddau iechyd yn mesur y capasiti a'r galw ar gyfer pob un o'r llwybrau canlynol mewn perthynas â'r bobl sydd wedi cael eu hatgyfeirio o'r newydd a'r rheini sy'n dod am apwyntiad dilynol. Er mwyn cynorthwyo ymhellach â'r gwaith o gynllunio gwasanaethau caiff data'r galw a'r capasiti eu dadansoddi ac adroddir am y data ar wahân yn ôl y llwybrau clinigol integredig sy'n trin nifer fawr o bobl ar gyfer:

- Cataract
- Glawcoma
- Dirywiad Macwlaidd sy'n gysylltiedig â Henaint
- Retinopat heg diabetig.

Caiff cyflyrau llygaid sy'n bygwth y golwg eu trin yn y Gwasanaethau Llygaid mewn Ysbytai gan dimau amlddisgyblaethol a arweinir gan offthalmolegwyr. Ar gyfer y rhan fwyaf o'r cyflyrau hyn, mae'n hanfodol cychwyn triniaeth mewn modd amserol ac mae angen rheolaeth barhaus ar lawer o gleifion, gan gynnwys triniaeth â meddyginiaethau rhagnodedig, triniaethau laser a llawdriniaethau.

O ystyried y diffyg cydnabyddedig mewn capasiti yn y Gwasanaethau Llygaid mewn Ysbytai bu pryder bod y bobl sy'n aros am eu hapwyntiadau dilynol yn aros y tu hwnt i'r dyddiad a bennwyd gan glinig, gyda'r potensial i glefyd ddirywio mewn rhai achosion. Felly, bu'r offthalmolegwyr yn arwain wrth ddatblygu targedau ar gyfer offthalmoleg, a oedd yn cynnwys dulliau mesur ar gyfer pob claf (newydd a dilynol), yn seiliedig ar angen clinigol a'r perygl o golli golwg na ellid ei gael yn ôl.

Mae'r rhan fwyaf o gleifion sydd newydd eu hatgyfeirio yn parhau i ddisgwyl llai na 26 wythnos am eu hymgyngoriad cychwynnol, a'r cyfnod disgwyl canolrifol yw 13 wythnos. Fodd bynnag, mae nifer y cleifion ar y rhestr aros wedi cynyddu 8% dros y flwyddyn ddiwethaf. Nid adroddir am y niferoedd o gleifion sy'n disgwyl am apwyntiad dilynol ar hyn o bryd, ond caiff data eu casglu fel rhan o'r datblygiadau o fewn y Cynllun ar gyfer Gofal Llygaid. Os ydynt yn aros am apwyntiad dilynol, disgwyliwn i'r holl gleifion gael eu gweld yn ôl blaenoriaeth glinigol a bod cyfnod

priodol o amser yn cael ei adael rhwng apwyntiadau. O ganlyniad i bryderon ynghylch yr ôl-groniad o apwyntiadau dilynol, datblygodd ymgynghorwyr offthalmolegol gynnig i sicrhau bod y bobl hynny oedd â'r angen clinigol mwyaf yn cael eu blaenoriaethu'n briodol ar sail y canlynol:

Blaenoriaeth 1 – cleifion a all ddioddef niwed, na ellir ei ddadwneud, o ganlyniad i ohirio apwyntiadau

Blaenoriaeth 2 – cleifion a all ddioddef niwed, y gellir ei ddadwneud, o ganlyniad i ohirio apwyntiadau

Blaenoriaeth 3 – cleifion y gallai fod yn anghyfleustra iddynt neu a all ddioddef canlyniadau nad ydynt yn rhai difrifol a/neu rai y gellir eu dadwneud o ganlyniad i ohirio apwyntiadau

Bydd y byrddau iechyd yn mesur y capasiti a'r galw ar gyfer pob un o'r llwybrau canlynol sy'n ymwneud â chleifion newydd, triniaeth a gweithgarwch dilynol:

- Cataract
- Glawcoma
- Dirywiad Macwlaidd sy'n gysylltiedig â Henaint
- Retinopat heg diabetig

Cynllun peilot i brofi dulliau mesur newydd ar gyfer mynediad i'r HOLL gleifion yn seiliedig ar angen clinigol

Mae gwaith ar y gweill ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg i flaenoriaethu'r holl gleifion (newydd a dilynol) yn seiliedig ar angen clinigol yn hytrach nag o ganlyniad i'r safonau sy'n berthnasol i gleifion newydd yn unig. Bydd canlyniadau'r cynlluniau peilot hyn yn gymorth i benderfynu a fydd y dull hwn yn cael ei fabwysiadu ledled Cymru.

Dull sicrhau ansawdd: Mynediad at wasanaethau llygaid mewn ysbyty ar gyfer cleifion newydd a dilynol

Dull sicrhau ansawdd: Canlyniadau llawdriniaeth cataract

Sefydlodd Llywodraeth Cymru brosiect llwybrau gofal Canolbwyntio ar Offthalmoleg, er mwyn mesur a phwyso sefyllfa'r maes gofal ar hyn o bryd a sut y dylai gael ei ddarparu yn yr 21ain ganrif, a rhannu arferion gorau ar gyfer glawcoma, dirywiad

macwlaidd sy'n gysylltiedig â henaint a gofal heb ei drefnu. Y canlyniadau allweddol o brosiect Canolbwyntio ar Offthalmoleg oedd cytundeb rhwng yr holl randdeiliaid ynghylch integreiddio gwasanaethau rhwng y gymuned ac ysbytai, a sefydlu timau amlddisgyblaethol i wneud y defnydd gorau posibl o'r holl wahanol weithwyr proffesiynol a'r adnoddau sydd ar gael. Roedd llwybrau eisoes wedi'u datblygu ar gyfer gofal heb ei drefnu, glawcoma a dirywiad macwlaidd sy'n gysylltiedig â henaint. Roedd y cynllun cyflawni yn amlinellu'r angen i ddatblygu llwybr cataract Canolbwyntio ar Offthalmoleg.

Yn 2013, cyfrannodd Llywodraeth Cymru tuag at £1 miliwn o arian newydd i Goleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr a'r Bartneriaeth Gwella Ansawdd Gofal lechyd i ddatblygu archwiliad cenedlaethol o'r holl lawdriniaethau cataract yng Nghymru a Lloegr dros y tair blynedd nesaf.

Yn llwybr glawcoma Canolbwyntio ar Offthalmoleg, caiff pobl yr amheuir bod ganddynt glawcoma eu hasesu a'u rheoli mewn Canolfannau Diagnosteg a Thriniaeth Offthalmig arbennig, lle mae aelodau o'r tîm amlddisgyblaethol glawcoma (nyrsys arbenigol, orthoptwyr, technegwyr ac optometryddion) yn gallu darparu llawer o'r gofal ar gyfer achosion risg isel. Bydd yr offthalmolegwyr yn cadarnhau'r diagnosis ac yn rheoli'r driniaeth drwy glinig "rhithwir". Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sefydlu Canolfannau Diagnosteg a Thriniaeth Offthalmig ledled Cymru ar gyfer gofal, sy'n effeithiol yn glinigol ac o ran y gost, ac sydd o fewn cyrraedd rhwydd i gartrefi cleifion.

Gwnaed cynnydd o ran Llwybrau Canolbwyntio ar Offthalmoleg:

- **Ym mis Ebrill 2014, cymeradwywyd llwybr Cataract Canolbwyntio ar Offthalmoleg ac mae'n cael ei weithredu ledled Cymru.**
- **Cwblhaodd yr Uned Gyflawni archwiliadau ar lwybrau cleifion Canolbwyntio ar Offthalmoleg ar gyfer dirywiad macwlaidd sy'n gysylltiedig â henaint, glawcoma, a gofal heb ei drefnu. Gwelsant gynnydd da ar draws Cymru.**
- **Sefydlwyd Canolfannau Diagnosteg a Thriniaeth Offthalmig ar gyfer glawcoma ledled Cymru.**

Mae dirywiad macwlaidd gwlyb sy'n gysylltiedig â henaint yn achosi i bobl golli eu golwg yn gyflym. Mae angen i gleifion gael eu gweld o fewn pythefnos o gael eu hatgyfeirio a'u hasesu bob pedair neu wyth wythnos yn dibynnu ar y driniaeth a ddefnyddir.

Dull sicrhau ansawdd: Mynediad at driniaeth ar gyfer dirywiad macwlaidd gwlyb sy'n gysylltiedig â henaint

Y Byrddau Iechyd i adrodd ar y canlynol:

- Lefelau'r gweithgarwch sy'n ymwneud â chleifion â dirywiad macwlaidd gwlyb sy'n gysylltiedig â henaint
- Y gyfran o gleifion a ddechreuodd eu triniaeth o fewn pythefnos i gael eu hatgyfeirio
- Cyfran y cleifion a gafodd eu trin o fewn y cyfnod dilynol a ddyrannwyd iddynt gan glinigwr

4.7 Cefnogi pobl sydd wedi colli eu golwg

Er gwaethaf ymdrechion gorau gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, fe fydd yna bobl sy'n datblygu nam ar eu golwg.

Gall colli golwg fod yn drawmatig iawn a gall gael effaith sylweddol ar ansawdd bywyd unigolyn. Felly, mae'n hanfodol bod pawb yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod pobl yn derbyn gofal o ansawdd da a chefnogaeth i alluogi pobl i fyw mor egniol ac annibynnol â phosibl.

Mae Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru yn wasanaeth sy'n seiliedig yn y gymuned a ddarperir ledled Cymru gan 170 o Optometryddion sydd wedi cael hyfforddiant pellach ac wedi eu hachredu gyda'r Ysgol Optometreg a Gwyddorau'r Golwg, Prifysgol Caerdydd.

Bydd cleifion fel arfer yn disgwyl llai na pythefnos am apwyntiad ac yn gallu cael y gwasanaeth yn eu cymdogaeth.

Mae Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru yn gweithio'n agos iawn gyda gwasanaethau cymdeithasol a'r trydydd sector. Mae atgyfeiriadau gan Wasanaeth Golwg Gwan Cymru i'r gwasanaethau ar gyfer cwympiadau wedi'u datblygu dros y 12 mis diwethaf, a bellach mae llwybr atgyfeirio o'r gwasanaethau ar gyfer cwympiadau i'r gwasanaethau gofal llygaid ym maes gofal sylfaenol wrthi'n cael ei ddatblygu.


Dull mesur canlyniadau: Nifer y bobl sy'n cael asesiad golwg gwan newydd

Gan ddefnyddio data Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru byddwn yn monitro:

- Nifer yr asesiadau golwg gwan newydd fesul 1000 o'r boblogaeth yng Nghymru
- Nifer yr asesiadau golwg gwan newydd mewn pobl dros 60 oed fesul 1000 o'r boblogaeth dros 60 oed
- Y nifer o asesiadau golwg gwan newydd o grwpiau lleiafrifoedd ethnig.

Mae anghydraddoldeb yn y defnydd a wneir o Wasanaeth Golwg Gwan Cymru ond drwy dargedu hyfforddiant rydym wedi lleihau hyn. Dangosir darpariaeth Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru ym mis Ebrill 2013 ar gyfer y boblogaeth dros 65 oed yn Ffigur 6. Drwy dargedu hyfforddiant yn yr ardaloedd daearyddol lle'r oedd y ddarpariaeth yn is, roedd y gwasanaeth a ddarparwyd ym mis Ebrill 2014 wedi gwella mewn rhai ardaloedd. Dangosir hynny yn Ffigur 7.


Ffigur 6: Y boblogaeth dros 65 oed fesul Optometrydd wedi'i achredu gan Wasanaeth Golwg Gwan Cymru, Ebrill 2013



Ffigur 7: Y boblogaeth dros 65 oed fesul Optometrydd wedi'i achredu gan Wasanaeth Golwg Gwan Cymru, Ebrill 2014

Nifer y cleifion dros 65 oed
fesul Optometrydd wedi'i
achredu gan Wasanaeth
Golwg Gwan Cymru

0 – 1000	a
1001 – 2000	b
2001 – 3000	c
3001 – 4000	d
4001 – 5000	e
5001 – 6000	f
6001 – 7000+	g



© Hawlfraint y Goron 2014
Cartograffeg - Llywodraeth Cymru
ML/48/14.15

Roedd ailachredu ymarferwyr golwg gwan yn cynnwys hyfforddiant ar gwympiadau a chydweithio â'r gwasanaethau cymdeithasol

Dechreuodd y broses ailachredu ar gyfer Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru ym mis Hydref 2014. Mae'r broses hon yn digwydd bob tair blynedd; mae cwblhau'r broses yn hanfodol ar gyfer ymarferwyr o bob rhan o Gymru er mwyn iddynt gael aros ar y rhestr achrededig. Mae'r ailachredu yn broses amlddisgyblaethol ac yn cynnwys gwasanaethau cymdeithasol. Roedd y broses yn cynnwys y pynciau canlynol: cymhorthion gweld cymhleth wedi'u gosod ar sbectol, adnabod ac atgyfeirio'r bobl hynny sydd mewn perygl o gwmpo, diogelu plant ac oedolion, a rheoli plant ac oedolion oed gweithio sydd â golwg gwan.

Rhan bwysig o'r gwasanaeth adsefydlu cymunedol ar gyfer pobl â golwg gwan yw'r cysylltiad â gwasanaethau cymdeithasol.

Dull mesur canlyniadau: Atgyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol gan Wasanaeth Golwg Gwan Cymru ac atgyfeirio gan y gwasanaethau cymdeithasol at Wasanaeth Golwg Gwan Cymru

Gan ddefnyddio data Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru byddwn yn monitro:

- Nifer yr atgyfeiriadau at Wasanaeth Golwg Gwan Cymru gan y gwasanaethau cymdeithasol.
- Y nifer o atgyfeiriadau o Wasanaeth Golwg Gwan Cymru at y gwasanaethau cymdeithasol.

5. Edrych tuag at 2015

Bu cynnydd sylweddol ym maes gofal llygaid yng Nghymru dros y 12 mis diwethaf. Mae hyn yn deyrnged i bawb sy'n cymryd rhan yn y cynllunio a'r darparu yn y maes pwysig hwn. Mae hyn yn cynnwys staff yn y GIG a'r proffesiynau contractio a'r rhai mewn awdurdodau lleol. Rhaid inni hefyd gydnabod gwaith amhrisiadwy y trydydd sector.

Roedd eleni'n canolbwyntio ar ddatblygu sylfeini cadarn ar gyfer rhagor o ddatblygiadau cadarnhaol. Yn benodol, sefydlu dulliau mesur canlyniadau i'n galluogi i werthuso cynnydd yn y dyfodol. Bydd hyn yn ein galluogi i olrhain ein cynnydd yn y blynyddoedd i ddod er mwyn sicrhau ein bod mewn sefyllfa gynaliadwy i gyflawni ein gweledigaeth erbyn 2018.

Mae swm aruthrol o waith eto i'w wneud yng Nghymru ac mae'r grŵp llywio wedi gosod blaenoriaethau ar gyfer 2015 sef:

- Lleihau'r ôl-groniad o apwyntiadau dilynol yn Offthalmoleg. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod data y galw a'r capasiti ar gyfer offthalmoleg yn cael eu casglu yn yr holl fyrddau iechyd, a bod Cynllun Gweithredu ar gyfer Gofal wedi'i gynllunio ym maes Offthalmoleg yn cael ei gyflwyno.
- Sicrhau bod yr holl fyrddau iechyd yn adolygu anghenion eu gweithlu ar gyfer y dyfodol a nodi a diwallu anghenion hyfforddi ar gyfer eu holl staff.
- Sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld mewn lleoliad priodol.
- Datblygu cynllun cyfathrebu.
- Cyflwyno Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu ar gyfer gofal llygaid ac atgyfeiriadau Optometreg uniongyrchol at Wasanaeth Llygaid mewn Ysbyty, ynghyd â sefydlu system gofnodion electronig am gleifion.



Dr Barbara Ryan,
Cadeirydd Grŵp Llywio
Gofal Llygaid



Andrew Goodall,
Cyfarwyddwr Cyffredinol
Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol